Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Seminar masnach twristiaeth y gwanwyn a digwyddiad cwrdd â'r cynhyrchwyr, 28 Mawrth 2023

Mae Twristiaeth Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Cywain, Menter a Busnes, yn cynnal seminar masnach y gwanwyn a digwyddiad cwrdd â'r cynhyrchwyr yng ngwesty y Royal Victoria, Llanberis ar 28 Mawrth 2023 (9:30am-1:00pm). I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/e/570927338037

# CYFLE: Tendr Llwyddo'n Lleol (ARFOR) yn fyw

Mae gan Cyngor Gwynedd – ar ran Cynghorau Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr – gyfle tendro o £3m yn fyw ar gyfer menter Llwyddo'n Lleol fel rhan o raglen ARFOR. Bydd Llwyddo'n Lleol yn cefnogi pobl ifanc a theuluoedd i aros neu ddychwelyd i'r ardal drwy newid canfyddiadau a chefnogi entrepreneuriaeth. Dyddiad cau derbyn cyflwyniadau yw 11 Ebrill 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3JmFzZE

Mae gwybodaeth am Raglen ARFOR ar gael ar:

https://www.rhaglenarfor.cymru/index.html

# DIGWYDDIAD: BT Trawsnewid Dyfodol Cymru 20 Ebrill 2023

Bydd y digwyddiad yma, i'w gynnal ym Mharc Gwyddoniaeth M-SParc Menai, Gaerwen LL60 6AG ar 20 Ebrill 2023 (9:30am-1:00pm), yn gyfle i glywed gan BT am y cymorth allant ei gynnig i drawsnewid busnes ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyhoeddus, 5G a'r weledigaeth ddigidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://trawsnewiddyfodolcymrunorth.splashthat.eu/

# DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf yn cynnig cyngor ymarferol ar redeg busnes ar-lein, marchnata digidol a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# ARIANNOL: Cyllideb y Gwanwyn 2023

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chyllideb y Gwanwyn 2023 ar 15 Mawrth 2023. Mae'r holl fanylion ar gael ar:

https://www.gov.uk/government/publications/spring-budget-2023

# TRETH: Paratowch ar gyfer y flwyddyn dreth newydd

Mae CThEF yn cynnal gweminarau byw yn ystod mis Mawrth ar y thema 'Cyflogwyr – beth sy'n newydd ar gyfer 2023 i 2024'. I drefnu lle, ewch i:

https://bit.ly/42bNvFU

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru